HEALTH & SAFETY
IECHYD A DIOGELWCH

# Trefniadau Polisi

# Plant ar Eiddo'r Brifysgol

# HSA-10202-01

## Cynnwys

Rheoli'r Ddogfen .... 2
Cofnod Diwygio .... 2
1. Cyflwyniad a Chwmpas .... 3
2. Y Polisi .... 4
2.1 Digwyddiadau a gweithgareddau wedi'u cynllunio .... 4
2.2 Amgylchiadau heb eu cynllunio/ad hoc/eithriadol .... 5
2.3 Plant heb oedolyn .... 6

## Rheoli'r Ddogfen

| | |
|---|---|
| Enw'r Ddogfen | Plant ar Eiddo'r Brifysgol |
| Rhif Cyfeirnod y Ddogfen | HSA-10202-01 |
| Diwygiad | Rhifyn 1 |
| Dyddiad Cyhoeddi | Ionawr 2023 |
| Lluniwyd gan | Will Finn-Lewis / Louise Nowell |
| Diwygiwyd gan | |
| Adolygwyd gan | Y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Gwytnwch, Grŵp Ymgynghori, yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth a Thîm Arweinyddiaeth y Gwasanaethau Proffesiynol |
| Cyswllt e-bost | healthandsafety@abertawe.ac.uk |

## Cofnod Diwygio

| Diwygiad | Dyddiad | Diwygiad/Diwygiadau |
|---|---|---|
| **0** | Hydref 2022 | Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Gwytnwch am sylwadau ac i gael ei chymeradwyo |
| **FERSIWN DRAFFT DERFYNOL** | Ionawr 2023 | Fersiwn ddrafft derfynol i'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn dilyn ymgynghoriad |
| **1** | 16/01/23<br>19/01/23 | Rheoli'r ddogfen i'w chyhoeddi<br>Bu mân newidiadau gan Dîm Arweinyddiaeth y Gwasanaethau Proffesiynol |

## 1. Cyflwyniad a Chwmpas

Nod trefniadau'r polisi hwn yw sicrhau iechyd, diogelwch a lles plant sy'n ymweld â'r brifysgol neu sy'n mynd i weithgareddau a drefnir gan y brifysgol, heblaw am fel myfyrwyr sydd wedi cofrestru neu'r rhai hynny sydd ar brofiad gwaith a gymeradwyir.

Mae trefniadau iechyd a diogelwch penodol ar gael ar gyfer plant sy'n dod i'r brifysgol neu sy'n bresennol mewn gweithgaredd a drefnir gan y brifysgol, naill ai fel myfyrwyr sydd wedi cofrestru, neu ar brofiad gwaith.

Mae'r ddogfen trefniadau polisi hon yn berthnasol i'r holl gyfadrannau, unedau gwasanaeth proffesiynol, mentrau sy'n cydweithredu â'r brifysgol, staff, myfyrwyr, tenantiaid a chontractwyr pan fyddant ar y campws neu'n gweithio ar ran y brifysgol mewn lleoliadau eraill, gan gynnwys ymweliadau i wneud gwaith maes.

Mae'r trefniadau hyn yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch plant ar eiddo'r brifysgol. Mae trefniadau cysylltiedig penodol ychwanegol sydd ar waith yn y brifysgol ar gael ar dudalennau iechyd a diogelwch y staff a thudalennau iechyd a diogelwch myfyrwyr ôl-raddedig ac israddedig.

Gan gynnwys:

- Asesu risg
- Rhestr wirio plant a phobl ifanc
- Mamau sy'n feichiog ac sy'n bwydo ar y fron
- Gwaith Maes
- Lleoliadau profiad gwaith
- Polisi Diogelu a threfniadau cysylltiedig: Diogelu Grwpiau sy'n Agored i Niwed – Prifysgol Abertawe

At ddiben y ddogfen hon, gellir diffinio plentyn fel a ganlyn:

- Rhywun sydd heb gyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Deddf Plant 1989 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).
- Unrhyw un sy'n iau na'r isafswm oedran ar gyfer gadael yr ysgol (16 oed ar hyn o bryd) ac unrhyw berson ifanc sy'n hŷn nag 16 oed, ond sy'n iau na 18 oed (Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR)). Mae cyfeiriadau at blentyn/blant yn y ddogfen hon yn cynnwys pobl ifanc yn unol â'r diffiniad.

Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau'r Brifysgol sy'n ystyriol o deuluoedd ac opsiynau cymorth rhieni a gofal plant yma:

- Staff – Adnoddau Dynol: Trefniadau Ystyriol o Deuluoedd – Prifysgol Abertawe
- Myfyrwyr: Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe

## 2. Y Polisi

Mae ar Brifysgol Abertawe 'ddyletswydd gofal' am iechyd, diogelwch a lles pawb sy'n ymweld â'i heiddo a'r rhai hynny sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnir gan y brifysgol.

Mae gofyniad cyfreithiol i gwblhau asesiad risg iechyd a diogelwch penodol i blant (a phobl ifanc). Rhaid rhoi ystyriaeth briodol i risgiau iechyd, diogelwch a diogelu, yn ogystal ag effaith tarfu ar weithrediad arferol y brifysgol. Rhaid cydymffurfio â Pholisi Diogelu'r Brifysgol a'r trefniadau cysylltiedig ar bob adeg.

Fel sefydliad addysg uwch, mae'r rhan fwyaf o'n defnyddwyr dros 18 oed. Er ein bod yn cefnogi ac yn hyrwyddo gweithgarwch addysgol, mae'r brifysgol yn weithle ac nid yw ei hadeiladau, ei gweithgareddau a'i mesurau rheoli risg ar gyfer plant yn gyffredinol.

Mae'r achlysuron pan gaiff plant ddod i'r brifysgol neu weithgareddau a drefnir gan y brifysgol yn perthyn i ddau brif gategori:

- Digwyddiadau a gweithgareddau wedi'u cynllunio
- Amgylchiadau heb eu cynllunio/ad hoc/eithriadol

### 2.1 Digwyddiadau a gweithgareddau wedi'u cynllunio

Mae llawer o resymau pam gall plant ymweld ag eiddo'r brifysgol neu gyfranogi mewn gweithgaredd a drefnir gan y brifysgol, ac ni fwriedir i'r ddogfen trefniadau polisi hon gyfyngu ar bresenoldeb plant mewn digwyddiadau neu weithgareddau sydd wedi'u cynllunio yn y brifysgol.

Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau a gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Defnyddio cyfleusterau'r brifysgol, megis y feithrinfa, gwasanaethau iechyd, cyfleusterau chwaraeon, y pwll cenedlaethol, llyfrgelloedd, ymweld â'r amgueddfa, theatrau, arddangosfeydd, a chyfleusterau oddi ar y campws megis Oriel Science a Thŷ'r Gwrhyd.
- Ymweliadau a gweithgareddau a drefnir gan y brifysgol, awdurdod lleol, ysgolion allanol neu gyrff cydnabyddedig, gan gynnwys gweithgareddau dysgu ac addysgu, ysgolion haf, gweithgareddau allgymorth megis digwyddiadau gofalwyr ifanc, etc.
- Gweithgareddau ymchwil a gymeradwyir.
- Gweithgareddau a drefnir gan y brifysgol y tu allan i eiddo'r brifysgol, h.y. gwaith maes.
- Digwyddiadau'r brifysgol lle gall plant ddod fel ymwelwyr, h.y. seremonïau graddio, diwrnodau agored.
- Digwyddiadau preswyl mewn llety'r brifysgol.
- Digwyddiadau a drefnir gan drefnwyr allanol, gan gynnwys hurio/defnyddio cyfleusterau a phreswylfeydd y brifysgol.

Rhaid rhoi trefniadau iechyd, diogelwch a diogelu cadarn ar waith ar gyfer yr holl ddigwyddiadau a gweithgareddau a drefnir, gan gynnwys asesiad risg penodol a rhoi mesurau rheoli risg cadarn ar waith i blant.

Trefnydd y digwyddiad/gweithgaredd sy'n gyfrifol am gwblhau asesiadau risg a rhoi mesurau rheoli priodol ar waith, gan gynnwys goruchwylio.

Rhaid rhoi trefniadau cadarn ychwanegol ar waith ar gyfer digwyddiadau a drefnir lle mae'n rhaid cael mynediad i amgylcheddau risg uwch megis labordai neu ymgymryd â gweithgaredd risg uwch.

Gwaherddir plant rhag nifer o leoliadau a gweithgareddau yn y brifysgol. Cysylltwch â'r tîm Iechyd, Diogelwch a Gwytnwch i gael cyngor ar waharddiadau a gweithgareddau risg uwch (gweler tudalennau iechyd a diogelwch y staff).

### 2.2 Amgylchiadau heb eu cynllunio/ad hoc/eithriadol

Dylai plant fod yn bresennol ar eiddo'r brifysgol mewn ardaloedd risg isel a hygyrch, am gyfnod byr a lle nad yw eu presenoldeb yn tarfu ar weithrediad arferol y brifysgol.

Rhaid i blentyn fod yng nghwmni oedolyn ar bob adeg ar eiddo Prifysgol Abertawe. Dylai'r oedolyn fod mewn sefyllfa i oruchwylio, cyfarwyddo ac, os oes angen, reoli gweithredoedd y plentyn. Mae goruchwylio'n golygu bod yn bresennol yn yr un ystafell a pheidio ag ymgymryd â'r un dasg arall, er mwyn ymateb ar unwaith i blentyn, os oes angen.

Fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall plant/pobl ifanc hŷn yn eu harddegau (TGAU a Safon Uwch) ddefnyddio mannau mewn llyfrgelloedd cyhoeddus heb oedolyn at ddibenion astudio.

Dyma rai enghreifftiau:

- Ymweliadau cymdeithasol gan rieni â babanod newydd-anedig neu blant ifanc.
- Dod yng nghwmni rhiant (un o gyflogeion neu fyfyrwyr Prifysgol Abertawe) i'r brifysgol ar ymweliad byr, e.e. wrth ymweld am gyfnodau byr i gasglu gwaith.
- Dod yng nghwmni rhiant/oedolyn cyfrifol ar ymweliad ag ardal sydd ar agor i'r cyhoedd, megis llyfrgell, desg derbynfa, caffi, etc.
- Mamau sy'n bwydo ar y fron. Yn ôl yr angen, bydd y Gyfadran/Uned Gwasanaeth Proffesiynol yn caniatáu mynediad i fannau priodol i fwydo ar y fron ar gais.

Dan y fath amgylchiadau, rhaid peidio â chaniatáu i blant gael mynediad i labordai, gweithdai, stiwdios, ceginau mannau bwyd, neu ardaloedd peryglus eraill neu i gyfranogi mewn gweithgaredd peryglus/defnyddio cyfarpar peryglus neu ddod i gysylltiad â'r rhain.

Ni ddylid dod â phlant i'r gweithle na mannau dysgu ac addysgu (oni bai am ddigwyddiad a drefnir). Mae hyn yn cynnwys presenoldeb plant mewn gweithgareddau gwaith maes a gynhelir gan y brifysgol, oddi ar y campws.

Mewn amgylchiadau eithriadol, rhaid cael caniatâd gan bennaeth yr ysgol/adran, rheolwr llinell neu ddirprwy enwebedig arall i ddod â phlant i ardaloedd risg isel y gweithle neu fannau dysgu ac addysgu am ymweliadau byr/anfynych.

Yn yr achosion hyn, rhaid i blant gael eu goruchwylio'n uniongyrchol gan yr oedolyn sy'n eu hebrwng ar bob adeg. Yr oedolyn sy'n hebrwng y plentyn sydd â chyfrifoldeb personol am ofalu amdano a'i oruchwylio ar bob adeg.

Rhaid i'r oedolyn sicrhau nad yw'r plentyn y mae'n ei hebrwng yn tarfu ar waith arferol y brifysgol mewn unrhyw ffordd. Felly, er y gall y risg fod yn isel, ni chaniateir i blant fod yn bresennol mewn darlithoedd, seminarau na gweithgareddau addysgu eraill. I'r un perwyl, mewn ardaloedd eraill, er enghraifft llyfrgelloedd, gellir gofyn i'r oedolyn fynd â'r plentyn y mae'n ei hebrwng oddi ar yr eiddo os yw'n tarfu.

Rhaid dwyn unrhyw ymddygiad sy'n groes i'r uchod mewn lleoliadau dysgu ac addysgu at sylw'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau priodol yn y Gyfadran. O ran lleoliadau'r Gwasanaethau Proffesiynol megis llyfrgelloedd y Brifysgol, dylid dwyn y mater at sylw'r Cyfarwyddwr priodol yn y Gwasanaethau Proffesiynol. Mewn achosion eithriadol, gall tramgwyddau parhaus arwain at gyfeirio dan weithdrefnau disgyblu myfyrwyr y Brifysgol.

### 2.3 Plant heb oedolyn

Oherwydd natur agored ein heiddo, gall plant heb oedolyn gael mynediad i'n campysau, er enghraifft o ganlyniad i hawliau tramwy cyhoeddus.

Dan yr amgylchiadau hyn, mae dyletswydd ar y Brifysgol i sicrhau y gellir cael mynediad i ardaloedd risg isel sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn unig.

Rhaid rhoi gwybod i wasanaethau diogelwch y campws ar unwaith am y canlynol:

- Plant sydd heb oedolyn/heb eu goruchwylio.
- Plant a welir yn mynd i ardal risg uwch neu ardal nad yw'n hygyrch i'r cyhoedd. Er enghraifft, labordai, gweithdai, stiwdios, ceginau neu ardaloedd peryglus eraill.
- Plant sy'n cael mynediad at gyfarpar/ddeunyddiau peryglus neu sy'n cyfranogi mewn gweithgarwch peryglus.
- Plant a welir yn ymddwyn mewn ffordd sy'n debygol o achosi niwed, tarfu neu risg iddynt hwy eu hunain neu eraill.

Yn ôl yr angen, bydd gwasanaethau diogelwch campws y brifysgol yn cysylltu â Heddlu De Cymru neu asiantaethau eraill.